# Adroddiad Arolygu

**Stephanie De'ath**

**Aberteifi**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Medi 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn mwynhau treulio amser yng ngwasanaeth y gwarchodwr plant yn fawr. Maent yn gwybod bod eu hanghenion, eu dymuniadau a'u syniadau yn cael eu parchu. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol ac yn teimlo'n hapus, yn ddiogel ac yn gyfforddus. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n rhoi ymdeimlad cadarnhaol o gyflawniad iddynt. Maent yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth glir ynghylch sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n ofalgar ac yn ymateb i anghenion y plant ac yn creu ethos cadarnhaol lle y mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'n parchu dewisiadau'r plant ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd. Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio'n briodol i gefnogi chwarae'r plant.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'n darparu ardal chwarae ddigonol. Mae amrywiaeth o deganau, adnoddau a chyfarpar addas a phriodol ar gael i'r plant dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio'n ddigonol i gynnal ei gwasanaeth. Mae ganddi bolisïau a chofnodion sylfaenol ar waith ar gyfer y plant. Fodd bynnag, mae angen gwella'r cofnodion presenoldeb. Mae'n adolygu ansawdd ei gofal, yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni yn briodol.

## Llesiant Da

Mae gan y plant lais cryf yng ngwasanaeth y gwarchodwr plant. Gallant wneud ceisiadau ac mae'r gwarchodwr plant yn gweithredu arnynt. Os nad yw'n bosibl gweithredu ar un o'r ceisiadau, bydd y gwarchodwr plant yn esbonio hynny'n glir. Er enghraifft, pan ofynnodd un o'r plant am sticeri penodol, dywedodd y gwarchodwr plant wrthi, "*I'm sorry I think we have run out of those, can you see if there is anything else you like?*". Roedd y plentyn yn fodlon ar yr esboniad hwn. Caiff diddordebau'r plant eu dilyn, a chânt gyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu chwarae.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel iawn, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn teimlo'n gartrefol iawn yn y gwasanaeth. Mae'r plant yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, yn meithrin cydberthnasau ac maent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol. Er enghraifft, maent yn cofleidio'r gwarchodwr plant a'i gilydd yn ddigymell. Mae'r plant yn fodlon, yn hapus ac wedi setlo.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r gwarchodwr plant a'r plant eraill. Maent yn rhannu adnoddau â'i gilydd yn hapus. Er enghraifft, ymestynnodd un plentyn degan gan ddweud diolch wrth blentyn arall, a chymerodd y plentyn hwnnw y tegan gan ddweud diolch yn ôl. Mae'r plant yn mynegi empathi ac maent yn sensitif i anghenion eraill. Maent yn dangos balchder wrth wneud pethau ar ran y plant eraill.

Mae'r plant yn gyfforddus ac yn ymgysylltu â'u chwarae. Maent yn cael dewis rhesymol o gyfleoedd priodol dan do ac yn yr awyr agored ac yn gallu ymlacio a chael cyfnodau tawel hefyd. Maent yn mwynhau cael canmoliaeth gan y gwarchodwr plant a chanmol eu hunain wrth gwblhau gweithgareddau. Er enghraifft, wrth wneud jig-so, gwnaeth y gwarchodwr plant ganmol y plant am osod y darnau yn y lle cywir. Yn dilyn hyn, curodd un o'r plant iau ei dwylo a chanmol ei hun am osod darn arall o'r jig-so yn ei le yn ddigymell. Mae'r plant yn canolbwyntio am gyfnod o amser sy'n briodol ar gyfer eu hoedran ac maent yn dangos yr hyn y maent wedi'i wneud gyda balchder.

Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i ddechrau eu chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau. Gallant gael gafael ar deganau ac adnoddau yn annibynnol. Er enghraifft, gallant estyn adnoddau o flychau neu oddi ar y silffoedd yn hyderus. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Mae'r adborth a gafwyd gan y plant yn gadarnhaol iawn. Dywedwyd eu bod yn mwynhau dod i'r gwasanaeth ac yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio'n gadarnhaol i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n deall ei chyfrifoldebau i amddiffyn y plant ac atebodd y cwestiynau am yr hyn i'w wneud mewn senario diogelu plentyn posibl yn briodol. Mae gan y gwarchodwr plant drefniadau glanhau ac arferion hylendid priodol. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, ni wnaeth roi gweithdrefnau golchi dwylo da ar waith yn gyson. Er enghraifft, ni olchodd ei dwylo ar ôl newid cewyn. Mae'r gwarchodwr plant yn nodi risgiau ac yn mynd ati'n rhagweithiol i'w rheoli. Roedd yn atgoffa'r plant yn rheolaidd i fod yn ddiogel ac yn sicrhau nad oedd unrhyw beryglon yn yr ardal. Er enghraifft, pan oedd y plant am newid gweithgareddau, dywedodd y gwarchodwr plant wrthynt, "*No problem but we have to tidy up first, we don't want too much out.*" Mae'r gwarchodwr plant yn ymateb yn gyson i anghenion y plant, a'u hystumiau geiriol a dieiriau.

Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi'r plant i siarad neu fynegi eu hunain yn dda am eu bod yn rhyngweithio'n gyson. Mae'n hyrwyddo'r iaith y mae'r plant yn ei siarad gartref ac yn siarad yn ddwyieithog, gan hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r gwarchodwr plant yn annog ymddygiad cadarnhaol ac yn dilyn ei pholisi rheoli ymddygiad yn gyson. Er enghraifft, defnyddiodd nifer o ddulliau atgyfnerthu cadarnhaol, gan gynnwys "da iawn*, well done."* Mae'n ymateb yn gyson; mae'n gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r gwarchodwr plant yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol.

Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda. Mae'n darparu amrywiaeth briodol o weithgareddau chwarae a dysgu. Mae'r gwarchodwr plant yn galluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac yn eu cefnogi yn eu chwarae. Er enghraifft, pan roedd y plant yn edrych ar yr anifeiliaid, gwnaeth eu henwi ar y cyd â'r plant a thrafod y synau gwahanol y maent yn eu gwneud. Mae'n arsylwi ar y plant wrth iddynt chwarae a dysgu drwy ofyn cwestiynau am eu gweithgaredd. Fodd bynnag, nid yw'n rhannu ei harsylwadau â'r rhieni nac yn eu defnyddio er mwyn ei helpu i gynllunio ar gyfer camau nesaf y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o anghenion a dewisiadau unigol y plant ac mae ganddi broses briodol ar waith os byddai ganddi unrhyw bryderon am ddatblygiad plentyn.

| Yr Amgylchedd | Digonol |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan, ar y cyfan. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal asesiadau risg gweledol bob dydd ac mae ganddi asesiadau risg sylfaenol ar waith. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cynnwys pob ardal o'r gwasanaeth. Cadarnhaodd y gwarchodwr plant ei bod yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd gyda'r plant. Fodd bynnag, nid yw'n cadw cofnod ysgrifenedig sy'n nodi pryd y caiff y rhain eu cynnal. Mae'r amgylchedd yn lân ac yn daclus ac mae'n rhoi arferion glanhau ar waith sy'n adlewyrchu arferion hylendid boddhaol. Ar y cyfan, mae'r arferion rheoli heintiau digonol yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf. Er enghraifft, mae'n sychu'r arwynebau y mae'r plant yn eu defnyddio i fwyta ac yn defnyddio giatiau diogelwch drwy'r lleoliad er mwyn sicrhau bod y plant yn defnyddio'r ardaloedd addas.

Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu'r amgylchedd yn briodol er mwyn sicrhau ei fod yn cynnig amrywiaeth foddhaol o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer y rhan fwyaf o'r ystodau oedran dan sylw. Mae byrddau lefel isel ar gael i'r plant a chaiff y rhan fwyaf o'r adnoddau eu storio ar lefel isel er mwyn iddynt allu cael gafael arnynt yn annibynnol. Mae eiddo'r gwarchodwr plant yn groesawgar ac yn gartrefol. Mae'r brif ystafell chwarae wedi'i lleoli mewn heulfan olau ac agored ac mae prosesau da ar waith i gynnal tymheredd priodol. Mae ardal awyr agored ddiogel yng nghefn yr eiddo a gaiff ei chynnal a'i chadw'n dda iawn.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae ddigonol dan do er mwyn i'r plant symud yn rhydd y rhan fwyaf o'r amser. Mae'n sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu llawer o anghenion y plant ac yn galluogi nifer ohonynt i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio'r ardal chwarae yn yr awyr agored yn rheolaidd, gan gynnig amrywiaeth eang o adnoddau. Er enghraifft, mae beiciau a theganau reidio, rhwyd pêl-fasged a siglen. Mae'r rhain mewn cyflwr da. Mae'n sicrhau y gall llawer o'r plant gael mynediad at amrywiaeth foddhaol o ddodrefn, teganau a chyfarpar dan do ac awyr agored sydd o ansawdd da ac yn addas ar gyfer oedran y plant. Mae digon o adnoddau i ennyn diddordeb y plant.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Digonol |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio'n ddigonol i ddatblygu ei gwasanaeth. Mae ganddi ddatganiad o ddiben cyfredol boddhaol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ac sy'n cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ei pholisïau o bryd i'w gilydd ac yn sicrhau i raddau y cânt eu rhoi ar waith yn ymarferol. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd unrhyw bolisi diogelu ar waith ac nid oedd y polisi anifeiliaid anwes wedi cael ei adolygu na'i ddiweddaru. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r gwarchodwr plant wedi cadarnhau bod polisi anifeiliaid anwes sydd wedi cael ei ddiweddaru ar waith a bod ganddi bellach bolisi diogelu. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r cofnodion gofynnol yn cynnwys contractau, caniatadau a chofnod sy'n nodi pryd na wnaeth y plant fynychu'r gwasanaeth a oedd yn wahanol i'w horiau arferol. Fodd bynnag, nid oedd y gwarchodwr plant yn cadw cofnod o amseroedd presenoldeb gwirioneddol y plant. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r gwarchodwr plant wedi cadarnhau ei bod bellach yn cadw cofnod ysgrifenedig dyddiol er mwyn nodi'r amseroedd y mae'r plant yn ei gofal.

Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ansawdd y gofal yn flynyddol. Mae'n gofyn am awgrymiadau gan y plant a'u rheini/gofalwyr ac yn llunio adroddiad sylfaenol ar ansawdd y gofal sy'n tynnu sylw at elfennau cadarnhaol o'i gwasanaeth.

Mae'r broses rheoli perfformiad yn foddhaol. Mae'r gwarchodwr plant yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys hyfforddiant cymorth cyntaf. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ers yr arolygiad diwethaf. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau cwrs diogelu lefel dau ac wedi gwneud cynlluniau i gwblhau ei chwrs lefel tri erbyn mis Tachwedd 2024. Mae gan y gwarchodwr plant dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Fodd bynnag, nid oedd gan un aelod o'r cartref dystysgrif DBS gyfredol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r gwarchodwr plant wedi mynd ati ar frys i ddechrau'r broses o gael tystysgrif DBS newydd ar gyfer yr aelod o'r cartref.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn ddigonol. Ar y cyfan, mae'n sicrhau bod y rhieni yn derbyn gwybodaeth reolaidd drwy adborth ar lafar a negeseuon digidol dyddiol. Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant yn hapus yn y gwasanaeth ac y gallant siarad â'r gwarchodwr plant am unrhyw beth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 20 | Mae angen i'r darparwr sicrhau bod gan bob aelod o'r cartref dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). | Newydd |
| 30 | Rhaid i'r darparwr sicrhau ei bod yn cadw cofnod dyddiol o enwau'r plant perthnasol a'u horiau presenoldeb gwirioneddol. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau y caiff yr hyn y mae'r plant yn ei wneud ei gofnodi er mwyn helpu i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer chwarae, dysgu a datblygiad y plant. |
| Safon 24 – Diogelwch | Datblygu'r asesiadau risg ysgrifenedig ymhellach. |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau y caiff ymarferion tân eu cofnodi'n ffurfiol a bod copïau ar gael i'w harolygu. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod gweithdrefnau golchi dwylo cyson ar waith. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/09/2024